



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

1	Gwybodaeth gefndir	1
2	Dosbarthiadau gwybodaeth	1
3	Hawlfraint a Chynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg	4
4	Cysylltu	5

# 1 Gwybodaeth gefndir

- 1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynhyrchu'r Cynllun hwn i gyd-fynd â'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf Rhyddid Gwybodaeth). Mae'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol ynghyd â'r Cynllun hwn ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

## 2 Dosbarthiadau gwybodaeth

- 2.1 Mae'r wybodaeth wedi ei grwpio yn ôl y dosbarthiadau a restrir yn y Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol. Anelir at gyhoeddi y rhan helaeth o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar ein gwefan gorfforaethol.

### Cyhoeddi setiau data i'w hailddefnyddio

- 2.2 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi, o dan ei chynllun cyhoeddi, unrhyw ddata sydd ganddi ac y gofynnwyd amdani, ynghyd ag unrhyw fersiynau wedi'u diweddarau, oni bai ei bod wedi'i bodloni nad yw'n briodol gwneud hynny. I'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid iddi ei gyhoeddi ar ffurf electronig y gellir aildefnyddio.
- 2.3 Os yw'r set ddata neu unrhyw ran ohoni'n waith hawlfraint perthnasol ac os mai'r Comisiynydd yw'r unig berchennog, mae'n rhaid i'r Comisiynydd drefnu ei bod ar gael i'w hailddefnyddio o dan delerau trwydded benodedig. Nid yw setiau data y mae'r hawlfraint neu'r hawliau cronfa ddata drostynt yn perthyn i'r Goron yn weithiau hawlfraint perthnasol.
- 2.4 Mae'r Cod Ymarfer Setiau Data yn argymhell y dylai awdurdodau cyhoeddus drefnu bod setiau data ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.
- 2.5 Diffinnir y term 'dataset' yn adran 11(5) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir y termau 'relevant copyright work' a 'specified licence' yn adran 19(8) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar y darpariaethau ynglŷn â setiau data yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn esbonio'r hyn a olygir gan "not appropriate" a "capable of re-use".

### Pwy ydyn ni a beth yw'n gwaith ni

- 2.6 Gwybodaeth am y sefydliad, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethiant cyfansoddiadol a chyfreithiol.
  - 2.6.1 Cewch hyd i wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg, ei strwythur sefydliadol a sail ddeddfwriaethol ei weithgareddau ar y wefan gorfforaethol.

- 2.6.2 Cewch fanylion pellach ym Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar y wefan.
- 2.6.3 Mae manylion cyswllt a lleoliad swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yng Nghaerdydd yn adran 'Cysylltu' y wefan.

### Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario.

- 2.7 Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a ragwelir ac incwm gwirioneddol a gwariant, tendro, caffael a chontractau.
  - 2.7.1 Bydd Adroddiadau Ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer pob blwyddyn hyd 31 Mawrth yn ymddangos ar y wefan ym mis Awst o'r flwyddyn honno. Gellir cael copi papur o'r cyfrifon llawn drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru).
  - 2.7.2 Mae copïau o amcangyfrifon ariannol blynyddol Comisiynydd y Gymraeg yn ymddangos ar y wefan o dan adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau'.
  - 2.7.3 Mae copi o'r llawlyfr treulïau; dogfen 'Gweithdrefnau Prynu Nwyddau a Gwasanaethau Comisiynydd y Gymraeg'; ynghyd â manylion unrhyw gontractau a ddyfarnwyd ar gael drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)
  - 2.7.4 Mae rhestr o'r tendrau sydd yn agored i gyflenwyr, yn ogystal â thendrau a fydd yn cael eu hysbysebu yn y dyfodol agos, ar gael drwy ddilyn y ddolen 'Tendrau' ar waelod tudalen flaen y wefan.
  - 2.7.5 Mae manylion ar letygarwch a threulïau a hawliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cael eu diweddarau yn chwarterol ac ar gael drwy ddilyn y ddolen 'Pwy yw'r Comisiynydd'.

### Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gweithredu

- 2.8 Gwybodaeth am strategaeth a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygiadau ac adolygiadau.
  - 2.8.1 Mae blaenoriaethau strategol Comisiynydd y Gymraeg wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Strategol ar gyfer 2018-2021, ceir gopi o'r Cynllun Strategol yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.
  - 2.8.2 Mae copi o Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.

### Sut rydym yn gwneud penderfyniadau.

- 2.9 Cynigion a phenderfyniadau polisi. Prosesau llunio penderfyniadau, meini prawf mewnol a gweithdrefnau, ymgynghoriadau.
  - 2.9.1 Mae copi o Ddatganiad Llywodraethiant Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.
  - 2.9.2 Mae copi o Gylch Gwaith Tîm Rheoli'r Comisiynydd ar gael yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.

- 2.9.3 Mae copi o Gylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.
- 2.9.4 Mae copi o Gylch Gorchwyl Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.
- 2.9.5 Mae manylion ymarferion ymgynghori y Comisiynydd ar gael ar y wefan. Ar y wefan ceir hefyd ymatebion y Comisiynydd i ymgynghoriadau sefydliadau eraill.

### Ein polisiau a gweithdrefnau.

- 2.10 Protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a chyfrifoldebau.
  - 2.10.1 Ceir copi o'r Cynllun Cyhoeddi a'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol ar wefan y Comisiynydd yn yr adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau'. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i wneud cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ym Mholisi'r Comisiynydd, sydd i'w ganfod yn adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau' y wefan.
  - 2.10.2 Fe gyhoeddir manylion swyddi gyda'r Comisiynydd ar y dudalen 'Swyddi' ar droedyn y wefan.
  - 2.10.3 Cewch hyd i Drefn Gwynion y Comisiynydd a Ffurflen Gwyno ar y wefan.
  - 2.10.4 Cewch hyd i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd ar y wefan.
  - 2.10.5 Os ydych am wneud cwyn ynghylch camweinyddu neu ddiffyg gwasanaeth gan swyddogion Comisiynydd y Gymraeg, gellir cael gwybodaeth bellach ar y wefan yn yr adran 'Comisiynydd' neu drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

### Rhestrau a chofrestrï.

- 2.11 Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrï sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau eraill a chofrestrï yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.
  - 2.11.1 Ceir copi electronig o gofnod buddiannau Comisiynydd y Gymraeg a'r Dirprwy Gomisiynydd ar y wefan o dan yr adran 'Comisiynydd.' Ceir copi electronig o'r Cofnod Rhoddion ar drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

### Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

- 2.12 Cyngor a chyfarwyddyd, llyfrynnau a thafleuni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.
  - 2.12.1 Mae manylion yr holl wasanaethau a gynigir gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w darganfod ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.
  - 2.12.2 Mae'r adran Gwybodaeth i'r Cyhoedd ar y wefan yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg sydd am ddeall mwy am statws y Gymraeg yng Nghymru,

eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ac am unrhyw hawliau sydd ganddynt wrth i safonau'r Gymraeg gael eu cyflwyno.

2.12.3 Mae'r adran Gwybodaeth i Sefydliadau ar y wefan yn cynnwys gwybodaeth i sefydliadau am eu dyletswydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae gwybodaeth am safonau'r Gymraeg – y broses o'u gosod, eu gweithredu a sut mae'r Comisiynydd yn eu gorfodi. Mae'r adran hefyd yn cynnwys gwybodaeth i sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg.

2.12.4 Cewch hyd i amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys taflenni a llyfrynau gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan yn yr adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau'.

2.12.5 Bydd dogfennau papur yn cael eu cyhoeddi hefyd. Mae dogfennau cyngor ar gael ar gyfer sefydliadau cyhoeddus, cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector yn yr adran 'Adroddiadau, canllawiau a chyhoeddiadau.'

2.12.6 Ceir cyngor pellach ar gyfer cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector ar is-wefan [Hybu Comisiynydd y Gymraeg](#)

2.12.7 Gallwch weld datganiadau newyddion Comisiynydd y Gymraeg trwy ddilyn y ddolen 'Newyddion' ar hafan y wefan.

2.13 Yn gyffredinol ni fydd y dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae ei datgelu yn cael ei atal gan y gyfraith, neu sydd wedi ei heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sydd yn cael ei hystyried yn briodol yn wybodaeth sy'n cael ei diogelu rhag ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn rhwydd gan ei bod mewn ffeiliau sydd wedi eu harchifo, neu sy'n anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

## 3 Hawlfraint a Chynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg

3.1 Diogelir y wybodaeth sydd ar gael trwy'r cynllun hwn gan hawlfraint oni nodir i'r gwrthwyneb. Yn gyffredinol, gellir atgynhyrchu deunydd at ddefnydd personol neu fewnol heb orfod cael caniatâd ffurfiol ac yn ddi-dâl. Ni chaniateir atgynhyrchu deunydd ar gyfer ei werthu nac at ddibenion masnachol eraill. Os ydych yn copïo unrhyw wybodaeth hawlfraint sydd ar gael trwy'r cynllun hwn, neu ei dosbarthu i eraill neu ei hailgyhoeddi, rhaid i chi nodi ffynhonnell y deunydd a chydabod ei statws hawlfraint.

3.2 Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd a ddiogelir gan Hawlfraint Comisiynydd y Gymraeg yn ymestyn i unrhyw ddeunydd ar y wefan a nodir fel deunydd hawlfraint trydydd parti. Mae'n rhaid cael yr awdurdod i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan y deiliaid hawlfraint dan sylw. Os ydych am holi am ddeunydd arall, neu os ydych yn ansicr, gellir cael gwybodaeth bellach a nodiadau cyfarwyddyd am hawlfraint a

chyhoeddi oddi wrth yr Archif Genedlaethol.

- 020 8876 3444 (Nodwch mai rhif ymholiadau cyffredinol yr Archif Genedlaethol yw hwn)

## 4 Cysylltu

- 4.1 Dymunwn i'n Cynllun Cyhoeddi fodloni'ch anghenion chi. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth arall y gellid ei chynnwys yn y dyfodol - ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut y gellid sicrhau bod y wybodaeth gyhoeddedig ar gael yn fwy hwylus i chi.
- 4.2 Dylid anfon cwestiynau neu sylwadau ynghylch y Cynllun hwn drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)